# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17eg Rhagfyr 2012 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yng Nghonwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.35 y bore.

YN BRESENNOL

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| A Morris Jones (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C L Guy-Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| W I Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E A Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Dingle (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGANIADAU'R CADEIRYDD

1.1 Cyn i'r cyfarfod ddechrau, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau iddo fod yn bresennol yng Ngwasanaeth Carolau'r Gwasanaethau Brys yng Nghadeirlan Bangor. Dywedodd iddo fod yn wasanaeth arbennig, gyda swyddogion o bob gwasanaeth brys yn cymryd rhan. Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y swyddogion o GTAGC a fu yno'n cynrychioli'r Gwasanaeth.

1.2 Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n rhan o'r digwyddiadau niferus o ganlyniad i lifogydd ymhob rhan o'r Gogledd yn ystod mis Tachwedd. Darllenodd eiriau'r Prif Weinidog fel y cawsant eu cofnodi yn Hansard ar 28ain Tachwedd 2012:

> 'The pictures of floods in St Asaph were of biblical scenes. The emergency services have performed extraordinary feats to rescue people and to help people at what is a very difficult time.'

1.3 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod y Tywysog Charles wedi ymweld â Llanelwy ac wedi galw yn yr orsaf dân i ddiolch am yr holl waith a wnaeth y Gwasanaeth a'r gwasanaethau brys eraill. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ddangos eu gwerthfawrogiad o'r holl waith a wnaeth GTAGC.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Datganodd Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fuddiant personol a rhagfarnol yn eitem 19 ar yr agenda, sef adroddiad ar brosiect tân ac ambiwlans Wrecsam.

2.2 Wrth nodi'r datganiad o fuddiant, rhoddodd y Clerc wybod i'r rhai oedd yn bresennol fod cyngor ar y mater wedi ei roi i aelodau o Wrecsam o flaen llaw. Roedd swyddog monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o'r un farn am y cyngor. Cynghorwyd aelodau Wrecsam y caent fod yn bresennol i glywed y sefyllfa ddiweddaraf ar y prosiect ond petai'r trafodaethau'n troi at y mater o brynu tir a'r Cyngor yn berchen y tir ac felly â gwrthdaro buddiant posibl, byddai gofyn i'r aelodau hynny adael y cyfarfod.

2.3 Ar yr adeg hon, gofynnodd y Cyng. A Jones am safbwynt yr Awdurdod ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd. Esboniodd y Clerc nad oedd gan yr Awdurdod bolisi ar y pryd ar gyfryngau cymdeithasol a chynigiodd fod adroddiad yn dod gerbron cyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Mawrth ynglŷn ag opsiynau ar ddefnyddio a rheoli'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Yn y cyfamser, gofynnodd y Cadeirydd i gyfryngau cymdeithasol fel 'Twitter' i beidio â cael eu defnyddio mewn cyfarfodydd.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15FED HYDREF 2012

3.1 Cyflwynwyd cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 15fed Hydref 2012 i'w cymeradwyo.

3.2 Nodwyd bod angen ychwanegu enw'r Cyng. G Lowe i restr yr aelodau a oedd yn bresennol a bod angen ychwanegu enwau'r Cyng. A Tansley a'r Cyng. L A W Jones i'r rhestr o'r ymddiheuriadau a ddaeth i law.

3.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion, yn ddarostyngedig i newid y rhestrau o'r rhai a oedd yn bresennol a'r ymddiheuriadau.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd dim materion yn codi.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. A M Jones a'r Cyng. M Ll Davies iddynt rhwng Mehefin a Rhagfyr 2012 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 Y LLIFOGYDD YM MIS TACHWEDD 2012

6.1 Roedd y Prif Swyddog Tân yn dymuno bod cofnod yn cael ei wneud o'i werthfawrogiad o'r gwaith a wnaeth staff GTAGC yn ystod y llifogydd diweddar ledled y Gogledd ym mis Tachwedd, ac yn arbennig yn Llanelwy. Esboniodd fod y Prif Weinidog, yn ogystal ag Ei Mawrthydi y Tywysog Charles, wedi ymweld â'r ardal. Roedd gwleidyddion eraill wedi cysylltu â'r Gwasansaeth ond wedi penderfynu peidio ag ymweld oherwydd pwysau gwaith ar swyddogion yn ystod cyfnod mor brysur.

6.2 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau am y gwaith angenrheidiol 'y tu ôl i'r llwyfan' er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a'r gofal priodol ar gael, a'i fod yn hynod falch o bawb a gymerodd ran. Ymdriniwyd â digwyddiad Llanelwy mewn modd proffesiynol gydag ymateb rhagorol gan yr holl staff. Roedd yn dymuno talu teyrnged a diolch i bawb a chwaraeodd ran mewn unrhyw fodd.

7 Y GYLLIDEB DDRAFFT 2013-14

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14 a oedd yn gwahodd yr Aelodau i gadarnhau'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14.

7.2 Roedd hyn yn rhan o'r strategaeth dair blynedd y cytunwyd arni yn Rhagfyr 2010 i rannu'r arbedion angenrheidiol yn gyfartal dros dair blynedd, a 2013-14 fydd trydedd flwyddyn y strategaeth. Teimlai'r Trysorydd fod y Gwasanaeth yn haeddu clod am fod ar y targed i arbed y £2.45 miliwn angenrheidiol dros dair blynedd. Ond, atgoffwyd yr Aelodau gan y Trysorydd y bydd anawsterau yn y trydedd flwyddyn oherwydd chwyddiant a chostau cynyddol eraill, er enghraifft prisiau tanwydd ac ynni, a fydd yn rhoi pwysau ar y gyllideb. Darperir adroddiadau monitro rheolaidd i'r Aelodau mewn cyfarfodydd i ddod.

7.3 O ran 2014/15 a 2015/16, cafodd rhagolygon y cyllidebau eu cynnwys yn yr atodiad i'r adroddiad a gyflwynwyd. Roedd ymrwymiadau hysbys wedi eu ffactorio i'r gyllideb am y ddwy flynedd, ac roeddent yn cynnwys costau refeniw cyfalaf uwch yn seiliedig ar y rhaglen gyfalaf. Bydd trafodaethau ynglŷn â'r strategaeth am y ddwy flynedd hyn yn cychwyn yn gynnar y flwyddyn nesaf.

7.4 Nodwyd y bydd cyfarfod arbennig o'r ATA yn cael ei alw os daw i'r amlwg cyn y dyddiad terfynol, sef 15fed Chwefror, y bydd cynnydd sylweddol i gyllideb 2013/14.

7.5 Gofynnodd y Cyng. Lewis am ddadansoddiad o'r golofn 'amrywiol', a chytunwyd i anfon i'r Aelodau restr o'r eitemau sy'n dod o dan y pennawd 'amrywiol'. Cytunwyd hefyd, er eglurder, i gynnwys pennawd ychwanegol ar daenlen y gyllideb o'r enw 'costau terfynu'.

7.6 O ran y cyfraniadau y gofynnwyd amdanynt gan yr awdurdodau cyfansoddol, roedd y ffigyrau'n seiliedig ar wybodaeth o'r cyfrifiad blaenorol, a gofynnodd y Cyng. Parry a oedd risg ariannol ar wasanaethau oherwydd fod y boblogaeth yn heneiddio. Esboniodd y Prif Swyddog Tân fod poblogaeth sy'n heneiddio yn peri problemau, ond rhoddwyd ystyriaeth i'r mater hwn yn dilyn Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân yn 2007 ac ers hynny bu llawer o bwyslais ar atal tanau yn hytrach nag ymateb. Er nad oedd hynny'n amlwg ar unwaith, defnyddiwyd llawer iawn o adnoddau ar gyfer gwaith ataliol ac ymdrin â phobl yn eu cartrefi eu hunain, er enghraifft yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a fu'n hynod lwyddiannus, gyda'r Awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r targed o weld 30,000 o eiddo yn cael larymau mwg bob blwyddyn ers 2007.

7.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2013/14;**

**(ii) cadarnhau'r strategaeth i'w dilyn er mwyn sicrhau'r arbedion yn 2013/14;**

**(iii) nodi sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2014/15 a 2015/16;**

**(iv) dweud wrth yr awdurdodau cyfnasoddol beth fydd y cyfraniadau amcanol y bydd eu hangen ar gyfer 2013/14;**

**(v) cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft a'r dulliau cysylltiedig o ariannu ar gyfer 2013/14.**

8 ALLDRO AMCANOL 2012-2013

8.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol amcangyfrifiedig, sef £363,007 am flwyddyn ariannol 2012-13. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa mai amcanol oedd y ffigwr, ac y gallai cynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau, er enghraifft oherwydd llifogydd, ostwng y ffigwr yn sydyn.

8.2 Gofynnodd y Cyng. Skelland am gynllun Bellwin a holi a oedd gwasanaethau tân ac achub yn ei ddefnyddio i adennill arian yn yr un modd ag awdurdodau lleol. Esboniodd y Trysorydd fod y cynllun yn ei gwneud yn bosibl i'r heddlu a thân godi tâl am wasanaethau mewn amgylchiadau priodol. Anfonir copi o gynllun Bellwin, a elwir bellach yn Gynllun Cymorth Ariannol Brys ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ar e-bost i bob Aelod.

8.3 Gofynnodd y Cyng. McGuill a allai'r Awdurdod godi tâl am fynd at wrthdrawiadau ar y ffyrdd, cadarnhawyd bod hyn bellach yn ddyletswydd statudol ac felly nid oedd yn bosibl codi tâl am droi allan.

8.4 Gofynnodd y Cyng. Dunbar a oedd yn briodol i'r Awdurdod brynu safle ambiwlans Glannau Dyfrdwy yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod gorsaf dân Glannau Dyfrdwy angen cael ei hadnewyddu a phetai rhan yr ambiwlans o'r lleoliad rhanedig yn cael ei gwerthu i sefydliad arall, gallai hynny effeithio ar gynlluniau ar gyfer ailddatblygu'r lle. Trwy fod yn berchen ar y safle cyfan, byddai modd cael mwy o hyblgrwydd o ran datblygiadau yn y dyfodol.

8.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig, sef £363,007; a**

**(ii) cytuno mewn egwyddor i neilltuo arian mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer:**

- **(a) prynu gorsaf ambiwlans Glannau Dyfrdwy (£127k);**
- **(b) cyrsiau rheoli digwyddiadau (£75k);**
- **(c) ymrwymiadau yn y dyfodol o ran ôl-dâl i ddiffoddwyr tân y system ar gael yn ôl y galw, sy'n gysylltiedig â'u hawliad o dan Reoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000 a'r hawliad posibl mewn perthynas â phensiwn (£300k).**

9 Y DIWEDDARAF AM Y PEIRIANNAU ARBENNIG

9.1 Cyflwynodd y PTSC Claydon yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeeth am sefyllfa bresennol fflyd y peiriannau arbennig.

9.2 Yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth peiriannau arbennig a gynhaliwyd yn 2003/04, roedd nifer o newidiadau mawr i'r peiriannau arbennig wedi eu gwneud, a chynhaliwyd adolygiad o ddyluniad a chynllun peiriannau tân cyffredin a'i roi ar waith. Roedd hyn yn rhan o'r amcan tymor hir o wella fflyd y Gwasanaeth.

9.3 Esboniodd y PSTC Claydon fod gan y Gwasanaeth nifer o beiriannau yn ychwanegol at y peiriannau tân, gan gynnwys unedau achub o ddŵr, peiriannau ysgol ac esgynlawr, Land Rovers ar gyfer diffodd tanau oddi ar y ffordd, a phympiau achub.

9.4 Roedd Aelodau'n ymwybodol fod yr Awdurdod wedi penderfynu ym mis Mawrth 2012 i leoli'r tri pheiriant ysgol ac esgynlawr (ALPs) sydd ar ôl, yn Wrecsam, Bangor a'r Rhyl. Roedd hyn o ganlyniad i benderfyniad cynt i beidio â chael peiriant newydd yn lle'r pedwerydd peiriant a oedd yn dod i ddiwedd ei oes ddefnyddiol ym Mawrth 2012. Nodwyd y bydd un arall o'r peiriannau yn dod i ddiwedd ei oes ddefnyddiol yn 2014 ac mae peiriant newydd wrthi'n cael ei gaffael.

9.5 Mae'r Prif Swyddog Tân yn parhau i dderbyn llythyrau gan bartïon sy'n bryderus ynghylch symud peiriant ysgol ac esgynlawr o orsaf dân Llandudno. Dywedodd y Cyng. Miles fod pobl yn bryderus na fyddai'r peiriant ALP yn cyrraedd digwyddiad yn ardal Llandudno o fewn digon o bryd, gan amau a oedd 30 munud yn darged y gellid ei gyrraedd yn realistig o ran teithio o'r Rhyl i Landudno. Esboniodd y PSTC Claydon fod y paramedr risg 30 munud wedi ei osod, ac na allai neb warantu y byddai peiriant ysgol ac esgynlawr yn bresennol o fewn 30 munud bob tro oherwydd y sefyllfa o ran traffig ar ffyrdd y Gogledd. Esboniodd y PSTC Claydon fod y digwyddiad yn Llandudno yn gynharach yn y flwyddyn am 2 o'r gloch y bore wedi ei drin gan beiriannau tân arferol ac na ddefnyddiwyd y peiriant ysgol ac esgynlawr.

9.6 I ateb cwestiwn ynglŷn â'r mater o brynu pedwerydd peiriant ALP, esboniodd y Cadeirydd fod y penderfyniad i symud y peiriant ALP wedi ei seilio ar wybodaeth helaeth a ddarparwyd i'r Awdurdod blaenorol ynglŷn â gofal a nifer yr adegau pryd y defnyddiwyd y peiriant ALP mewn digwyddiadau, a bod y tri pheiriant sydd ar ôl wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol i ofalu am y Gogledd ar ei hyd.

9.7 Esboniodd y Prif Swyddog Tân nad oedd y peiriant ALP yn cael ei ddefnyddio ar gyfer achub bywydau'n uniongyrchol, ac mai pwrpas ei bresenoldeb bob amser oedd darparu tŵr dŵr neu gyfleuster o fath arall o weithio'n uchel. Esboniodd y Prif Swyddog Tân fod yr Awdurdod wedi gwneud y penderfyniad yn seiliedig ar amrediad cyfan o ffactorau, gan gynnwys risg, y defnydd a nifer yr adegau pryd y cafodd ei ddefnyddio. Ailddatganodd y Cyng. Dunn y teimladau hyn ac esbonio y gallai ef, fel aelod o'r Awdurdod blaenorol a'r Panel Gweithredol, gadarnhau na chafodd y penderfyniad ei wneud yn ysgafn a bod cyfarfodydd niferus wedi eu cynnal i drafod agweddau cadarnhaol a negyddol y penderfyniad a'i ganlyniadau.

9.8 Gofynnodd y Cyng. A Jones am y digwyddiad yn y Bermo lle na fyddai'r un peiriant ALP yn gallu cyrraedd o fewn 30 munud. Roedd lleoliadau'r peiriannau wedi ei seilio ar gydbwysedd o risgiau ac adnoddau, a chanfuwyd mai ar brif goridor y Gogledd – sef yr A55 a'r A483 – y mae'r prif ardaloedd risg. Gan gyfeirio at y digwyddiad yn y Bermo, cadarnhaodd y PSTC Claydon na fu angen y peiriant ALP a bod y peiriannau tân arferol wedi bod yn ddigon i ymdrin â'r digwyddiad.

9.9 Roedd pob adroddiad am y peiriannau ALP ar gael ar wefan yr Awdurdod, a byddai'r adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod yr Awdurdod ym Mawrth 2012 yn cael ei anfon ar e-bost i'r Aelodau.

9.10 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL

10.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried cymeradwyo bod yr Awdurdod yn cytuno i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, a oedd yn cynnig cyfrwng strategol i gaffael categorïau cyffredin o nwyddau a gwasanaethau i'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

10.2 Cadarnhawyd y byddai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ateb gofynion agenda'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol, a'i fod yn ganlyniad i adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gaffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Cadarnhawyd y bydd y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yn parhau i gaffael, ar sail cydweithredol, ar gontractau arbenigol, er enghraifft cyfarpar amddiffyn personol, gwisgoedd a cherbydau ysgafn.

10.3 Mynegodd y Cyng. Skelland bryderon am fenter debyg rhwng cynghorau Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych yn y gorffennol a fu'n ddrud ac yn rwymedig; roedd yn amheus o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a theimlai y dylid ei fonitro'n fanwl. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd gwersi'n cael eu dysgu o'r profiad hwnnw a'i fod yn teimlo y dylai'r Awdurdod gytuno i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol er mwyn dangos ei ymrwymiad i weithio ar y cyd.

10.4 Dywedodd y Clerc ei bod yn debygol y byddai'r cwbl o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, ac y gallai ddarparu gwell gwerth am arian. Cynghorodd ei bod yn bwysig i'r awdurdodau tân ac achub, os ydynt yn gallu caffael contractau arbenigol am brisiau gwell eu hunain, fynegi'r amod o anorfodaeth yn eglur o fewn y cytundeb cychwynnol â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

10.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cytuno i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyda'r amodau a amlinellwyd yn y llythyr a oedd yn atodiad i'r adroddiad.**

11 DIWYGIO LLES

11.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am effaith bosibl y mesurau Diwygio Lles ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

11.2 Roedd y cynigion ar gyfer diwygio lles yn cynnwys cael 'credyd cyffredinol bywyd' a 'chredyd cyffredinol gwaith' yn lle system gymhleth o 51 o wahanol fudd-daliadau a chredydau treth. Mae Llywodraeth y DU wedi cychwyn rhoi newidiadau ar waith fesul cam. Roedd effeithiau'r newidiadau yn y cyfnod pontio yn destun pryder i awdurdodau lleol, ac awdurdodau'r heddlu, iechyd a thân ac achub.

11.3 Cafodd yr Aelodau eu sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio'n agos â chydweithwyr mewn awdurdodau lleol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn chwarae ei ran yn lliniaru risgiau.

11.4 Roedd gan rai Aelodau bryderon ynghylch y Ddeddf Diwygio Lles, ac yn arbennig y risg mwy mewn perthynas â llety ar rent, sef rhywbeth a nodwyd yn risg yn Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân. Hefyd, tynnodd y Cyng. A Evans sylw at y broblem o bobl ifanc dan 25 mlwydd oed sy'n byw mewn llety unigol ar hyn o bryd ond a fydd yn gorfod dod o hyd i lety mewn tai amlfeddiannaeth, sef rhywbeth a fydd yn golygu risg "enfawr".

11.5 I ateb cwestiwn gan y Cyng. L A W Jones ynghylch gwybodaeth y mae awdurdodau lleol yn ei darparu i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ynglŷn â thai amlfeddiannaeth, esboniodd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân fod y Gwasanaeth yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol ac yn derbyn rhestrau rheolaidd o dai amlfeddiannaeth sydd wedi eu cofrestru yn eu hardaloedd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cydweithio'n agos â'r awdurdod iechyd mewn perthynas â'r agenda i gadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi.

11.6 **PENDERFYNWYD darparu cefnogaeth barhaus i waith ataliol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, wrth iddo gydweithio â phartneriaid eraill ym maes diogelwch cymunedol i liniaru'r risgiau a allai godi o ganlyniad i fesurau Diwygio Lles.**

12 Y PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL

12.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wneir o dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

12.2 Cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Cymdeithasol, a bu'r cyfarfod yn un cadarnhaol o safbwynt Cadeirydd y Pwyllgor.

12.3 Ymhlith y materion a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 20$^{fed}$ Tachwedd 2012 roedd y cynnydd a wnaed wrth gysoni contractau caffael y tri Gwasanaeth a chyfeiriad y gwaith sydd i'w wneud gan dîm y prosiect hyfforddi a datblygu. Hefyd, roedd y pwyllgor wedi cefnogi'r cynnig lleihau risg cymunedol i gael cydweithio agos rhwng y tri Gwasanaeth. Bellach, roedd gan y tri ATA yng Nghymru un contract busnes gwasanaethau cyfreithiol diogelwch tân, a oedd yn darparu un dull cyson i'r tri ATA o ran gorfodaeth gyfreithiol y Gorchymyn Diogelwch Tân (2005).

12.4 Nodwyd mai swm yr arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd hyd yn hyn oedd £2,345,000 yn y tri Gwasanaeth dros gyfnod o bum mlynedd.

12.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. R E Parry y cyfarfod.

13 Y BWRDD RHANBARTHOL CYMUNEDAU MWY DIOGEL A CHOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

13.1 Rhoddodd y Clerc wybod i'r Aelodau fod y Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau mwy Diogel wedi cyfarfod ddwywaith ac wrthi'n datblygu ei raglen waith. Hyd yn hyn, nid oedd prosiectau o fewn y rhaglen a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar waith yr awdurdod tân ac achub.

13.2 Roedd Winston Roddick wedi ei ethol i swydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Bydd gan y Comisiynydd bwerau penderfynu uniongyrchol dros rannau mawr o'r gwasanaethau a oedd o'r blaen yn dod o dan y bartneriaeth diogelwch cymunedol. Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Mr Roddick i ddymuno'n dda ynddo yn ei swydd ac i ofyn am gyfarfod gydag ef yn y Flwyddyn Newydd.

13.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

14 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2013

14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn 2013.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r dyddiadau cyfarfodydd a ganlyn:**

**Cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub**
Dydd Llun 18fed Mawrth 2013 – Wrecsam
Dydd Llun 17eg Mehefin 2013 – Sir Ddinbych
Dydd Llun 16eg Medi 2013 – Gwynedd
Dydd Llun 16eg Rhagfyr 2013 – Sir y Fflint

**Cyfarfodd y Panel Gweithredol** i'w cynnal am 2 y prynhawn yn y Pencadlys
Dydd Llun 4ydd Chwefror 2013
Dydd Llun 13eg Mai 2013
Dydd Llun 15fed Gorffennaf 2013
Dydd Llun 28ain Hydref 2013

**Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio** i'w cynnal am 2 y prynhawn yn y Pencadlys
Dydd Llun 28ain Ionawr 2013
Dydd Llun 3ydd Mehefin 2013
Dydd Llun 23ain Medi 2013

15 COFNODION CYFARFODYDD

15.1 Cafodd cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 19eg Tachwedd i'r Aelodau er gwybodaeth.

15.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion ac y byddant yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol yn Chwefror 2013.**

Gwahoddwyd yr Aelodau i symud y cyfarfod i ran II er mwyn trafod dwy eitem.

Roedd y Cyng. Arfon Jones yn gwrthwynebu i eitem 18, sef adolygiad o Gyflogau Uwch Swyddogion, gael ei thrafod o dan ran II. Teimlai fod y cyflogau yn wybodaeth gyhoeddus o dan y Ddeddf Lleoliaeth, ac felly dylid eu trafod yn gyhoeddus. Esboniodd y Clerc fod y cyflogau'n cael eu cyhoeddi a bod yn rhaid iddynt gael eu gwneud yn hysbys, ond mai priodol yw trafod y mater o dan II gan fod y cyflogau'n cael eu hadolygu a hefyd oherwydd y ffaith fod swydd wag yn y strwythur bresennol.

**PENDERFYNWYD symud i ran II o'r agenda, gan eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod.**

RHAN II

16 PROSIECT TÂN AC AMBIWLANS WRECSAM

16.1 Ailadroddodd y Clerc y cyngor a roed ar ddechrau'r cyfarfod i aelodau Wrecsam oedd yn datgan buddiant ym mhrosiect tân ac ambiwlans Wrecsam. Y rheswm dros fod angen datgan buddiant personol a rhagfarnol oedd oherwydd y posibilrwydd o drosglwyddiad tir rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'r Awdurdod Tân ac Achub ac felly gwrthdaro buddiant. Roedd gan yr Aelodau hawl i fod yn bresennol i gael y wybodaeth ddiweddaraf ond os trafodir y posibilrwydd o brynu tir, byddai rhaid i'r aelodau adael y cyfarfod.

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cynghorwyr A Jones, G Lowe, P Pemberton ac A Evans y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill.

16.2 Aeth y PSTC Claydon â'r Aelodau drwy'r adroddiad gan esbonio'r cefndir, y costau a fu ers cychwyn y prosiect a'r problemau llifogydd gyda'r safle bresennol ar Ffordd Croesnewydd.

16.3 Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod ef a'r Dirprwy Gadeirydd yn cael briffiadau rheolaidd, fel yr oedd eu rhagflaenwyr. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gyfeirio'r mater i'r Panel Gweithredol ystyried ffyrdd ymlaen gyda'r prosiect.

16.4 Gofynnodd y Clerc i nodyn gael ei wneud fod y Cyng. Skelland yn dal yn bresennol pan gododd y PSTC Claydon y mater yn fyr ynghylch prynu tir ond nad oedd unrhyw drafodaeth wedi digwydd. Felly ni ofynnwyd i'r Cyng. Skelland adael y cyfarfod.

16.5 **PENDERFYNWYD nodi**

- **(i) bod y gost o ddatblygu'r safle i ofynion TAN 15, (Nodyn Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)) wedi arwain at fuddsoddiad sylweddol o arian i'r seilwaith er mwyn ei gwneud yn haws adeiladu gorsaf ar y safle hwn;**
- **(ii) bod angen, er mwyn darparu'r prosiect ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gael cynnydd sylweddol yn y gyllideb y cytunwyd arni o'r blaen;**
- **(iii) bod costau'r adeiladau wedi eu gwneud mor isel â phosibl er mwyn arbed arian, gan arwain o bosibl at adeilad annymunnol o an edrychiad, ond a fyddai'n diwallu anghenion gweithredol.**

Gadawodd y Cyng. W I Hughes y cyfarfod ar yr adeg hon.

Gadawodd pob swyddog ac eithrio'r Prif Swyddog Tân, y Clerc, y Trysorydd a Swyddog Cyswllt yr Aelodau y cyfarfod cyn trafod yr adroddiad nesaf.

17 ADOLYGIAD O GYFLOGAU UWCH SWYDDOGION

17.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod yr adolygiad rheolaidd o gyflogau uwch swyddogion wedi ei gomisiynu yn unol â pholisi'r Awdurdod.

17.2 O dan gytundeb gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigadau Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau lleol (yr NJC), mae codiad cyflog cenedlaethol yn cael ei drafod bob blwyddyn i adlewyrchu chwyddiant. Roedd yn arfer dda mewn cyflogaeth i gynnal lefelau cyflogau trwy gymharu ac adolygu'n rheolaidd.

17.3 Yn 2006, cytunwyd i gynnal adolygiadau bob tair blynedd, cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf yn 2009 ac felly roedd yn bryd cynnal yr adolygiad hwn. Esboniodd y Clerc ei fod wedi comisiynu adolygiad i'w gynnal gan yr un asesydd allanol a oedd wedi cynnal yr adolygiadau blaenorol.

17.4 Gwahoddwyd yr Aelodau i sefydlu panel cydnabyddiaeth ariannol i ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr asesydd allanol. Bydd y panel yn cynnwys y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a bydd y tri Aelod ychwanegol yn cynrychioli'r tri awdurdod lleol arall.

17.5 Bydd yr awdurdod cyfansoddol yn enwebu ei gynrychiolydd eu hun. Enwebwyd y Cyng. Peter Lewis gan Aelodau Conwy, enwebwyd y Cyng. Tudor Owen gan Aelodau Gwynedd. Caiff cynrychiolydd o Gyngor Sir y Fflint ei gadarnhau wedi'r cyfarfod.

17.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi bod yr Adolygiad rheolaidd o Gyflogau Uwch Swyddogion wedi ei gomisiynu yn unol â chytundeb blaenorol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;**

**(ii) cytuno i sefydlu Panel Cydnabyddiaeth Ariannol ac ar ei gyfansoddiad, i gynnwys y Cynghorwyr Peter Lewis, Conwy a Tudor Owen, Gwynedd ynghyd â'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Nodwyd y bydd cynrychiolydd Sir y Fflint yn cael ei gadarnhau yn gynnar yn 2013.**